Taith

Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol Cymru ar gyfer Dysgu

2023 Canllaw Rhaglen Graid

Version 2: 10 March 2023

Llwybr 1 – Addysg Uwch (Addysg ac Ymchwil)

Mae'r ddogfen hon yn ymwneud yn benodol â galwad cyllid Llwybr 1 Taith (2023) ar gyfer y sector AU (Addysg ac Ymchwil). Ceir gwybodaeth gyffredinol am raglen Taith, gan gynnwys nodau ac amcanion Taith, y broses asesu a'r gwaith rheoli prosiect yng Nghanllaw'r Rhaglen Graidd. Fe gynghorir pob ymgeisydd yn gryf i ddarllen drwy Ganllaw'r Rhaglen Graidd yn ogystal â'r wybodaeth benodol am y Llwybr dan sylw a gynhwysir yn y ddogfen hon cyn cwblhau cais.

Cynnwys

Geirfa 3

1. Cyflwyniad i Llwybr 1 5

2. Pwy all wneud cais / cymryd rhan yn Llwybr 1 5

2.1 Sectorau cymwys 5

2.2 Cydgyfnewid 6

3. Cymhwysedd - Gwybodaeth am y sector 6

3.1 Trosolwg 6

3.2 Gwybodaeth gyffredinol 7

3.3 Sefydliadau cymwys 8

3.4 Llwybr 1HE – Addysg Uwch (Addysg) 8

3.5 Llwybr 1 AY – Addysg Uwch (Ymchwil) 16

4 Gwneud cais ar gyfer Llwybr 1 20

4.1 Dyddiad cau 20

4.2 Cyn i chi wneud cais 20

4.3 Cyflwyno cais 20

5. Asesu 21

5.1 Asesu ceisiadau 21

5.2 Llwybr 1 Meini Prawf Asesu 22

6. Cyfraddau grant Llwybr 1 – Sector AU 25

Atodiad 1 – cymorth cynhwysiant Taith 29

Geirfa

Person sy'n mynd gyda nhw Oedolyn, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, aelodau staff y sefydliad sy'n gwneud cais, fydd gyda'r cyfranogwyr mewn gweithgaredd symudedd ac yn cefnogi cyfranogwyr i sicrhau eu bod yn cael y budd mwyaf posibl o'r gweithgareddau. Dylai grwpiau o gyfranogwyr fod yng nghwmni gweithiwr proffesiynol cymwys er budd cefnogi a hwyluso dysgu.
Dyddiad cau ar gyfer gwneud cais Y dyddiad a'r amser olaf y gellir cyflwyno'r holl ffurflenni cais er mwyn i dîm Taith eu hystyried a'u hasesu.
Sefydliad sy'n gwneud cais Y sefydliad yng Nghymru sy'n cyflwyno cais am gyllid i Taith. Gall sefydliad sy'n gwneud cais wneud hynny naill ai'n unigol neu ar ran consortiwm, sy'n cynnwys sefydliadau eraill sy'n ymwneud â'r prosiect.
Buddiolwr Pan gaiff ei gymeradwyo ar gyfer cyllid prosiect, daw'r sefydliad sy'n gwneud cais yn Fuddiolwr y cyllid grant ac mae'n gyfrifol am lofnodi'r cytundeb grant.
Consortiwm Dau neu ragor o sefydliadau sy'n cydweithio i ddatblygu a chyflawni prosiect neu weithgaredd o fewn prosiect.
Cyfranogwr difreintiedig Cyfranogwyr sy'n fyfyriwr neu'n berson ifanc sy'n cael eu hystyried dan anfantais yn unol ag un neu ragor o feini prawf Taith a byddant yn gymwys i gael cymorth ariannol ychwanegol. Cewch ragor o fanylion yn Atodiad 1.
Cyllid dwbl Ariennir y costau ar gyfer yr un gweithgaredd ddwywaith drwy ddefnyddio arian cyhoeddus. Er eglurder, ni chaniateir hyn ac ystyrir ei fod yn torri telerau ac amodau'r Cytundeb Grant.
Gweithgaredd cymwys Gweithgaredd sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yng Nghanllaw Rhaglen Taith.
Costau cymwys Swm y grant sy'n gysylltiedig â chynnal gweithgareddau prosiect.
Sefydliad cymwys Sefydliad sy'n gallu gwneud cais am gyllid Taith.
Dysgu ffurfiol Unrhyw ddysgu sy'n digwydd yn rhan o raglen ddysgu sydd wedi'i threfnu neu'i strwythuro.
Galwad cyllid Y cyfnod amser pryd gellir cyflwyno ceisiadau am gyllid.
Grant Y cyllid a ddyfernir gan Taith i sefydliad sy'n gwneud cais llwyddiannus.
Cytundeb GrantY cytundeb ysgrifenedig rhwng Taith a'r Buddiolwr yn manylu ar delerau ac amodau'r dyfarniad grantyn unol â'r ffurflen gais a fydd wedi'i hasesu'n annibynnol i fod yn gyllidadwy ac a fydd wedi'i chymeradwyo gan International Learning Exchange Partnership Limited i gael ei chyllido.
Cyfraddau grant Cyfraddau sefydlog sydd ar gael ar gyfer costau cymwys gwahanol.
Teithio Gwyrdd Dulliau trafnidiaeth cynaliadwy, h.y. teithio sy'n defnyddio dulliau trafnidiaeth ag allyriadau isel ar gyfer prif ran y daith. Er enghraifft, bysiau, trenau neu rannu ceir.
Dysgu anffurfiol Dysgu sy'n digwydd y tu allan i raglen ddysgu sydd wedi'i threfnu neu'i strwythuro ac nid oes cymorth dysgu yn bresennol. Cyfeirir atynt weithiau fel dysgu drwy brofiad neu achlysurol.
Symudedd mewnol Cyfranogwyr o sefydliadau anfon cymwys sy'n dod i Gymru i gymryd rhan yn un o raglenni Taith.

Rhyngwladol Yng nghyd-destun Taith, unrhyw wlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig.
Deilliannau dysgu Datganiadau o'r hyn y bydd dysgwr yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud ar ôl cwblhau proses ddysgu (yn cynnwys gweithgarwch yn rhan o'r prosiect, cyfleoedd dysgu – gall y rhain fod yn ffurfiol, heb fod yn ffurfiol neu'n anffurfiol).
Cynrychiolydd cyfreithiol Y person sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol i gynrychioli sefydliad ac sydd â'r awdurdod cyfreithiol i ymrwymo i gontract cyfreithiol rwymol, gan gynnwys, yng nghyd-destun Taith, yr awdurdod i lofnodi Cytundeb Grant.
Mis Wrth gyfrifo swm y grantiau Taith, mae mis yn 28 diwrnod.
Dysgu anffurfiol Dysgu sy'n digwydd y tu allan i unrhyw raglen ddysgu sydd wedi'i threfnu neu'i strwythuro ond mae rhywfaint o gymorth dysgu yn bresennol.
Symudedd Allanol Cyfranogwyr o sefydliadau cymwys yng Nghymru sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau a gefnogir gan Taith mewn sefydliadau sy'n derbyn y tu allan i'r DU (neu mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, y tu allan i Gymru mewn sefydliadau sy'n derbyn yng ngweddill y DU).
Symudedd Ffisegol Symud yn ffisegol i wlad ar wahân i'r wlad breswyl i gymryd rhan mewn gweithgarwch prosiect a/neu gyfle dysgu ffurfiol, heb fod yn ffurfiol neu anffurfiol.
Cyfranogwr Unigolyn sy'n ymgymryd â gweithgaredd symudedd rhyngwladol ffisegol/rhithwir neu gyfunol mewn prosiect a ariennir gan Taith.
Sefydliad partner Term generig ar gyfer unrhyw sefydliad sy'n ymwneud yn ffurfiol â phrosiect a ariennir gan Taith, lle mae perthynas neu ryngweithio'n rhan o'r prosiect. Gall gynnwys y sefydliadau hynny a nodwyd fel sefydliad sy'n gwneud cais, cydlynydd, sefydliad sy'n derbyn neu sefydliad sy'n anfon yn ogystal ag eraill sy'n ymwneud â chyflawni'r prosiect.
Partneriaeth Cytundeb ffurfiol rhwng dau neu ragor o sefydliadau i gymryd rhan mewn prosiect a ariennir gan Taith ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau dysgu ar y cyd.
Prosiect Gweithgareddau wedi'u trefnu a'u cynllunio y cytunir arnynt er mwyn cyflawni amcanion a deilliannau clir.
Cyllideb prosiect Cyfanswm yr arian a ddyrannwyd ar gyfer gweithgareddau y cytunwyd arnynt o fewn prosiect a ariennir gan Taith.
Sefydliad sy'n derbyn Pan fydd unigolion neu grwpiau'n cymryd rhan mewn gweithgaredd symudedd corfforol drwy Taith, y sefydliad sy'n derbyn fydd eu sefydliad lletyol. Gellir cyfeirio at y sefydliad hwn yn aml fel lletywr neu bartner sefydliad rhyngwladol. Diffinnir sefydliadau derbyn cymwys yng Nghanllaw'r Rhaglen Llwybr 1 sector-penodol.
Sefydliadau sy'n anfon sydd wedi'u cofrestru ac sy'n gweithredu y tu allan i'r DU ac yn anfon cyfranogwyr i sefydliad lletyol yng Nghymru yn ystod gweithgareddau symudedd ffisegol. Diffinnir sefydliadau anfon cymwys yng Nghanllaw'r Rhaglen Llwybr 1 sector-penodol.
Staff Person sy'n cael ei gyflogi gan sefydliad sy'n gwneud cais, neu'n gweithio iddo, boed ar sail broffesiynol neu wirfoddol.
Cynhaliaeth Cyllid sydd ar gael i dalu costau byw, a all gynnwys llety, bwyd a thrafnidiaeth lleol, tra'n ymgymryd â gweithgaredd symudedd ffisegol.
Symudedd rhithwir Cymryd rhan mewn gweithgarwch prosiect ar-lein yn unig a/neu gyfle dysgu ffurfiol, heb fod yn ffurfiol neu anffurfiol, lle mae cyfranogwyr yn cymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu gan ddefnyddio platfformau neu offer dysgu ar-lein a hynny mewn cydweithrediad ag o leiaf un sefydliad mewn gwlad arall.

1. Cyflwyniad i Llwybr 1

Mae Llwybr 1 yn cefnogi symudedd allanol a mewnol cyfranogwyr unigol neu grwpiau o gyfranogwyr.

Mae astudio, hyfforddi, gwirfoddoli neu weithio dramor yn ehangu gorwelion pobl, yn ehangu eu sgiliau, ac yn dod â buddion i gymunedau a sefydliadau yma yng Nghymru. Dangoswyd bod gweithgareddau symudedd rhyngwladol yn cael effeithiau hynod gadarnhaol ar ddeilliannau personol a phroffesiynol cyfranogwyr, gan eu galluogi i ddatblygu sgiliau a phrofiad. Bydd cyfranogwyr hefyd yn llysgenhadon Cymru i'r byd, ac yn cyfleu'r neges bod Cymru'n edrych tuag allan, yn gydweithredol, ac yn agored i arloesi addysgol.

Mae cyllid ar gael i ddysgwyr, disgyblion, pobl ifanc, myfyrwyr, ymchwilwyr a staff i ymgymryd â chyfnewidiadau rhyngwladol, yn y tymor byr a'r tymor hir, sy'n gyfleoedd i rannu dysgu, profi diwylliannau gwahanol a datblygu sgiliau newydd.

2. Pwy all wneud cais / cymryd rhan yn Llwybr 1

2.1 Sectorau cymwys

Mae Llwybr 1 Taith yn agored i holl sectorau Taith:

- Ysgolion
- Ieuenctid
- Addysg bellach ac Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol
- Addysg i Oedolion
- Addysg Uwch (meysydd Addysg ac Ymchwil)

Mae'r meini prawf o ran cymhwysedd i Sefydliadau sy'n Gwneud Cais yn y sector Addysg Uwch (Symudedd Addysg ac Ymchwil), ynghyd â gwybodaeth am weithgareddau cymwys, cyfranogwyr, costau a hyd prosiectauar gyfer y sector i'w gweld yn adran 3.

Mae manylion am y meini prawf cymhwysedd i Sefydliadau sy'n Gwneud Cais, Sefydliadau Derbyn a Sefydliadau Anfon ar gyfer pob sector yn adran cymhwysedd Canllaw Rhaglen Craidd Taith.

Cyn iddynt gyflwyno cais, cynghorir pob sefydliad sy'n ystyried gwneud cais i wirio eu bod yn gymwys i wneud hynny ac i gysylltu â thîm Taith os oes ganddynt unrhyw gwestiynau ynghylch hyn.

2.2 Cydgyfnewid

Mae egwyddorion cydgyfnewid a dysgu ar y cyd yn ganolog i Taith. Gall sefydliadau sy'n gwneud cais am gyllid ar gyfer gweithgareddau symudedd allanol yn Llwybr 1 Taith wneud cais am gyllid ychwanegol ar gyfer symudedd mewnol i Gymru. Bydd hyn gyfwerth â 30% o'r cyllideb a ddyrennir i brosiect ar gyfer gweithgareddau symudedd allanol a bydd yn cael ei dalu ar ben y swm a neilltuwyd ar gyfer gweithgareddau symudedd allanol. Ceir rhagor o fanylion am gyllid ar gyfer gweithgareddau symudedd mewnol ac ar beth y gellir gwario'r cyllid hwn yn yr adran cymhwysedd isod. Bydd cyllid ar gyfer gweithgareddau symudedd mewnol yn cael ei gynnwys yn y dyfarniad grant i'r sefydliadau sy'n gwneud cais llwyddiannus yng Nghymru a'u cyfrifoldeb nhw fydd trosglwyddo'r cyllid dan sylw i'r sefydliad sy'n anfon, ac ar ei ran.

3. Cymhwysedd - Gwybodaeth am y sector

Mae'r adran hon yn rhoi'r holl fanylion am y gweithgareddau cymwys, hyd, cyfranogwyr a chostau i'r sector Addysg Uwch. Ceir gwybodaeth am sectorau eraill yng Nghanllaw Rhaglen Llwybr 1 y sector perthnasol.

3.1 Trosolwg

Mae Taith yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr a staff ym mhrifysgolion Cymru ymgymryd â symudeddau addysg trawsnewidiol. Mae dysgu rhyngwladol drwy symudedd hir a byrrach yn cael effaith gadarnhaol amlwg ar ddeilliannau addysgol, cyflogadwyedd yn y dyfodol a chydweithio ar ymchwil, gyda'r manteision hyn hyd yn oed yn fwy amlwg o ran cyfranogwyr sydd o gefndiroedd ehangu cyfranogiad. Bydd Taith yn cynnig ystod gynhwysfawr o weithgareddau symudedd ar gyfer y sector addysg uwch, ar draws pob disgyblaeth a chydag ystod eang o sectorau, hyn oll tra'n hyrwyddo Cymru, y Gymraeg a'r diwylliant ledled y byd.

Addysg drydyddol yw addysg uwch nad yw'n gyfystyr ag addysg bellach (ond gall darparwyr addysg bellach ei darparu). Yn gyffredinol, mae'n arwain at gymhwyster penodedig ar lefel 4-8.

Mae enghreifftiau o addysg uwch yn cynnwys:

- Lefel 4 – Tystysgrif Addysg Uwch
- Lefel 5 – Gradd sylfaen
- Lefel 6 – Gradd gydag anrhydedd
- Lefel 7 – Gradd Meistr Integredig / Diploma ôl-raddedig
- Lefel 8 – Doethuriaeth

3.2 Gwybodaeth gyffredinol

Mae dwy ffrwd o Lwybr 1 ar gyfer y sector addysg uwch:

Llwybr 1HE (Symudedd Addysg Uwch): Symudedd myfyrwyr a staff i Gymru ac o Gymru sy'n canolbwyntio ar addysg.

£2.5 miliwn yw cyfanswm y swm enghreifftiol a ddyrannwyd i'r sector AU (Addysg) yn yr alwad am geisiadau ar gyfer Llwybr 1 2023.

Llwybr 1RE (Symudedd Ymchwil): Symudedd ymchwilwyr a staff cymorth ymchwil i Gymru ac o Gymru.

£500,000 yw cyfanswm y swm enghreifftiol a ddyrannwyd i'r sector AU (Ymchwil) yn yr alwad am geisiadau ar gyfer Llwybr 1 2023.

Hyd y prosiect ar gyfer y sector AU (1HE ac 1RE) o ran symudedd myfyrwyr a staff yw:

- 12 mis
- 24 mis

Wrth ystyried hyd y gweithgareddau symudedd, gwnewch yn siŵr eich bod yn ymchwilio i ofynion fisa y wlad/gwledydd yr ydych yn bwriadu teithio iddynt, a rhowch ddigon o amser ar gyfer y broses ymgeisio am fisa (lle bo'n berthnasol).

Yn anffodus ni all Taith roi cyngor ar fisas, na darparu cymorth i sefydliadau neu unigolion gyda cheisiadau fisa.

Felly, bydd yn ofynnol i sefydliadau sy'n gwneud cais wneud cais ar wahân ar gyfer yr alwad ar gyfer Symudedd Addysg Uwch a'r alwad ar gyfer Symudedd Ymchwil, os ydynt yn dymuno manteisio ar yr ystod lawn o gyfleoedd sydd ar gael. Gall sefydliad sy'n gwneud cais gyflwyno un cais ar gyfer Llwybr 1AU ac un cais ar gyfer Llwybr 1AY. Cyhoeddir Cytundebau Grant ar wahân ar gyfer prosiectau Llwybr 1AU a Llwybr 1AY, i'w gweithredu fel prosiectau ar wahân, pob un â'i ofynion monitro ac adrodd ei hun.

3.3 Sefydliadau cymwys

Sefydliadau cymwys sy'n gwneud cais:

- Unrhyw sefydliad addysg uwch (SAU) yng Nghymru, a reoleiddir neu a ariennir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC);
- Darparwr addysg uwch, y mae ei gyrsiau wedi'u dynodi'n benodol at ddibenion bod yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr, ac sy'n gweithredu yng Nghymru.

Sefydliadau derbyn cymwys:

Gall sefydliadau cymwys sy'n gwneud cais yng Nghymru anfon cyfranogwyr cymwys i'r sefydliadau derbyn canlynol sydd y tu allan i'r DU a Thiriogaethau Tramor Prydain:

- Darparwr AU sy'n cael ei gydnabod neu ei reoleiddio gan yr awdurdodau cymwys cenedlaethol perthnasol neu gorff/cyrff rheoleiddio'r wlad y mae'r darparwr AU yn gweithredu ynddi ac wedi'i hymgorffori a/neu'n byw ynddi (gan gynnwys campysau tramor a weithredir gan SAU yng Nghymru);
- Unrhyw sefydliad cyhoeddus neu breifat sy'n weithgar yn y farchnad lafur neu ym meysydd addysg, hyfforddiant ac ieuenctid.

Sefydliadau anfon cymwys (symudedd mewnol):

Gall darparwyr Addysg Uwch sydd wedi'u cofrestru gyda'r corff/cyrff rheoleiddio perthnasol ac sy'n gweithredu y tu allan i'r DU a Thiriogaethau Tramor Prydain anfon cyfranogwyr cymwys i'w cynnal yng Nghymru.

Disgwylir i gyfranogwyr cymwys gael eu cynnal yn y sefydliad sy'n gwneud cais yng Nghymru. Gall y sefydliad sy'n gwneud cais drefnu i'r cyfranogwr gael ei gynnal gan drydydd parti, mewn amgylchiadau eithriadol.

Mae rhagor o wybodaeth am sefydliadau sy'n gymwys i dderbyn ac anfon ar gael yn yr adran cymhwysedd yng Nghanllaw Rhaglen Graidd Taith.

3.4 Llwybr 1HE – Addysg Uwch (Addysg)

Rhaid i sefydliadau sy'n gwneud cais gael hepgoriadau ffioedd dysgu ar gyfer symudeddau allanol a mewnol lle byddai cyfranogwyr fel arall yn atebol i dalu ffioedd dysgu. Nid yw hyn yn ofyniad ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn cynnwys credydau nac ysgolion haf sy'n cynnwys credydau.

Cyllid myfyrwyr

Teithio:

Os bydd cyfranogwr yn gymwys i gael grant teithio gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (CBF), dylid defnyddio cyllid Taith ar gyfer teithio yn gyntaf bob amser. Gall cyfranogwyr wneud cais i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr am gostau ychwanegol cymwys sydd heb cael eu talu gan costau Taith, megis teithio rhwng eu llety a'u lleoliad/sefydliad pan maent dramor, neu deithiau dychwelyd ychwanegol.

Cyllid ychwanegol ar gyfer cyfranogwyr ag anableddau a/neu anghenion dysgu ychwanegol:

Os bydd cyfranogwr yn gymwys ar gyfer Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA), dylid ceisio cael y cyllid ychwanegol sydd ei angen i gefnogi eu cyfranogiad yn Taith drwy'r llwybr hwn yn gyntaf. Er mwyn caniatáu digon o amser i brosesu unrhyw hawliadau DSA, rhaid i sefydliadau sydd wedi cael y cyllid hwn sicrhau eu bod yn hysbysu cyfranogwyr cyn gynted â phosibl bod eu gweithgaredd symudedd yn digwydd, a dylent roi digon o gefnogaeth/cyfeirio at y tîm sefydliadol perthnasol i'w galluogi i symud y cais ymlaen. Gellir cael gwybodaeth am gynnyrch cyllid myfyrwyr sydd ar gael i fyfyrwyr o Gymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon ar wefan pob corff cyllid myfyrwyr.

Os nad yw'r DSA yn talu am y cyllid ychwanegol sydd ei angen i gefnogi cyfranogwr i fanteisio ar gyfle Taith, gall y sefydliad sy'n elwa wneud cais i Taith am arian ychwanegol i dalu'r costau hyn. Cewch ragor o wybodaeth am gyllid ychwanegol i gyfranogwyr ag anableddau a/neu anghenion dysgu ychwanegol yn section 6.

Symudedd Myfyrwyr:

Mae gwybodaeth am sefydliadau sy'n gymwys i wneud cais i fod yn sefydliad sy'n derbyn, i'w chael yn yr adran cymhwysedd yng Nghanllaw Rhaglen Graidd Taith.

Cyfranogwyr cymwys:

Ar gyfer pob gweithgaredd:

- Pob myfyriwr sydd wedi cofrestru mewn SAU ac wedi cofrestru ar raglen israddedig neu ôl-raddedig a addysgir sy'n arwain at radd gydnabyddedig.
- Pob myfyriwr sydd wedi cofrestru ar gwrs Gradd Sylfaen, Diploma Cenedlaethol Uwch (HND) neu Dystysgrif Addysg Uwch.

Ar gyfer symudeddau lleoliad gwaith:

- Myfyrwyr yn unol â'r diffiniad uchod;
- Gall graddedigion addysg uwch diweddar (o fewn blwyddyn i raddio) gymryd rhan mewn *symudedd myfyrwyr – lleoliad gwaith*. Rhaid iddynt gwblhau symudedd *lleoliad gwaith* tramor o fewn 12 mis i raddio.

Dim ond o dan gategorïau'r Ysgol Haf, Symudedd Grŵp, Symudedd Cyfunol neu Symudedd Rhithwir y gall myfyrwyr nad ydynt wedi cwblhau eu blwyddyn gyntaf ar lefel israddedig gymryd rhan.

Mae'n bosibl i unigolyn ymgymryd â sawl symudedd (e.e., symudedd unigol 6 mis yn Sbaen, ac yna symudedd 6 mis yn Ffrainc yn syth wedyn) ar gyfer lleoliadau sy'n para blwyddyn. Fodd bynnag, cyfyngir cyfranogwyr i uchafswm o 12 mis o gyfranogiad, ar gyfer pob rhaglen astudio benodol sy'n arwain at gymhwyster/gradd gydnabyddedig.

Gweithgareddau ar gyfer myfyrwyr cymwys:

1. **Symudedd academaidd, gwirfoddoli neu leoliad gwaith unigol**

Symudedd myfyrwyr unigol (gyda chredydau neu heb gredydau), at ddibenion dysgu academaidd neu alwedigaethol, lleoliadau gwaith, gweithgareddau ymchwil neu wirfoddoli, mewn sefydliad cymwys sy'n derbyn.

Mae cyfuniad o leoliad academaidd, gwirfoddoli, ymchwil neu waith yn bosibl yn ystod un symudedd dramor.

Hyd

- Isafswm o bythefnos – uchafswm o 12 mis.

***Costau cymwys**:*

Myfyrwyr:

- Grant cynhaliaeth.
- Grant teithio.
- 100% o'r costau cynhwysiant gwirioneddol a nodwyd ar gyfer myfyrwyr sydd ag anableddau ac anghenion ychwanegol.

Ar gyfer myfyrwyr sydd o gefndiroedd difreintiedig:

- 50% ychwanegol i'r grant cynhaliaeth.
- 50% ychwanegol i'r grant teithio ar gyfer cyrchfannau sydd y tu hwnt i 4,000km.
- 100% o'r costau gwirioneddol ar gyfer costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â theithio e.e. fisâu, pasbortau, yswiriant teithio, bagiau (lle bo angen).

Bydd y sefydliad(au) a wnaeth gais llwyddiannus yn derbyn grant cymorth sefydliadol ar gyfer *pob* cyfranogwr allanol (a mewnol).

Mae gwybodaeth fanwl am gostau cymwys a chyfraddau grant i'w gweld yn adran 6.

2. **Gweithgareddau Symudedd i Grwpiau**

Gweithgareddau symudedd grŵp tymor byr, wedi'u harwain gan aelod(au) o staff gwasanaethau academaidd neu broffesiynol, sy'n hwyluso teithiau maes cwricwlaidd, gwaith grŵp neu brosiect, sy'n canolbwyntio ar amcanion addysgu a dysgu adrannol, ond gallant gyfrif o ran credydau neu beidio â gwneud hynny.

Rhaid i weithgareddau ehangu ar y gweithgareddau adrannol presennol a gynigir ar hyn o bryd a'u datblygu ymhellach, ac ni ddylid ailadrodd gweithgareddau a gwmpaswyd yn flaenorol drwy ffynonellau cyllid eraill.

Hyd

- Isafswm o bythefnos – uchafswm o 1 mis.

***Costau cymwys**:*

Myfyrwyr:

- Grant cynhaliaeth.
- Grant teithio
- 100% o'r costau cynhwysiant gwirioneddol a nodwyd ar gyfer myfyrwyr sydd ag anableddau ac anghenion ychwanegol.

Ar gyfer myfyrwyr sydd o gefndiroedd difreintiedig:

- 50% ychwanegol i'r grant cynhaliaeth.
- 50% ychwanegol i'r grant teithio ar gyfer cyrchfannau sydd y tu hwnt i 4,000km.
- 100% o'r costau gwirioneddol ar gyfer costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â theithio e.e. fisâu, pasbortau, yswiriant teithio, bagiau (lle bo angen).

Staff sy'n mynd gyda nhw:

- Grant cynhaliaeth ar gyfer hyd at ddau aelod o staff sy'n mynd gyda nhw. Gall sefydliadau ddewis a ddylid talu staff yn erbyn gwariant a dderbyniwyd neu dalu'r swm yn uniongyrchol i staff (lle nad oes angen gwariant a derbynneb).
- Grant teithio.
- 100% o'r costau cynhwysiant gwirioneddol a nodwyd ar gyfer staff sydd ag anableddau ac anghenion ychwanegol.

Bydd y sefydliad sy'n gwneud cais llwyddiannus yn derbyn grantiau cymorth sefydliadol ar gyfer pob cyfranogwr allanol (a'r tu allan).

Mae gwybodaeth fanwl am gostau cymwys a chyfraddau grant i'w gweld yn adran 6.

3. Ysgolion Haf, Lleoliadau Gwaith neu Wirfoddoli

Gweithgareddau ysgol haf a gynhelir gan brifysgolion partner cymwys a cholegau rhyngwladol yn ystod gwyliau'r haf (neu'r gaeaf) gyda dosbarthiadau sy'n gysylltiedig â maes cwrs penodol, gyda'r opsiwn o fynd i weithgareddau allgyrsiol a gynlluniwyd i ysgogi ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

Mae prosiectau'n ymwneud â gwaith haf a rhaglenni gwirfoddoli rhyngwladol hefyd yn weithgareddau cymwys.

Hyd

- Isafswm o bythefnos – uchafswm o 12 wythnos.

Costau cymwys:

Myfyrwyr:

- Grant cynhaliaeth.
- Grant teithio.
- 100% o'r costau cynhwysiant gwirioneddol a nodwyd ar gyfer myfyrwyr sydd ag anableddau ac anghenion ychwanegol.
- Cyfraniad at ffioedd ar gyfer cyrsiau a hyfforddiant gan gynnwys cyrsiau ysgol haf myfyrwyr, cyfleoedd ar gyfer gwaith haf, neu raglenni gwirfoddoli rhyngwladol, hyd at uchafswm o £40 y dydd fesul cyfranogwr a hyd at uchafswm o £400 yr un i'r un cyfranogwr fesul prosiect/Cytundeb Grant.

Ar gyfer myfyrwyr sydd o gefndiroedd difreintiedig:

- 50% ychwanegol i'r grant cynhaliaeth.
- 50% ychwanegol i'r grant teithio ar gyfer cyrchfannau sydd y tu hwnt i 4,000km.
- 100% o'r costau gwirioneddol ar gyfer costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â theithio e.e. fisâu, pasbortau, yswiriant teithio, bagiau (lle bo angen).

Bydd y sefydliad sy'n gwneud cais llwyddiannus yn derbyn grantiau cymorth sefydliadol ar gyfer pob cyfranogwr allanol (a'r tu allan).

Mae gwybodaeth fanwl am gostau cymwys a chyfraddau grant i'w gweld yn Atodiad XX

4. Cyfnewidiadau Rhithwir Grwpiau:

Gweithgaredd cyfnewid rhithwir (heb unrhyw gysylltiad wyneb yn wyneb) a fydd yn caniatáu i ddysgwyr ymgysylltu'n rhithwir lle na fyddai gweithgaredd cyfnewid ffisegol neu deithio o fath arall yn bosibl/ymarferol i'r cyfranogwyr.

Ni ddylid defnyddio cyfnewidiadau rhithwir ar gyfer y cyfranogwyr hynny y mae angen cymorth a chyllid ychwanegol arnynt i ymgymryd â gweithgaredd symudedd ffisegol. Rhaid i sefydliadau sy'n gwneud cais fod yn glir yn eu ceisiadau ynghylch pam mai gweithgareddau symudedd cwbl rithwir yw'r unig fformat sy'n addas i'w disgyblion.

Er nad yw prosiectau rhithwir yn disodli manteision gweithgaredd symudedd ffisegol, mae ganddynt ddeilliannau addysgol cadarnhaol amlwg yn rhan o'r 'agenda ryngwladoli yn y cartref'. Dangoswyd hefyd bod cyfnewid rhithwir yn arwain at weithgareddau symudedd ffisegol i gyfranogwyr yn y dyfodol.

Mae gweithgareddau enghreifftiol yn cynnwys:

- Cyfuniad o ddysgu ar-lein a thrafodaethau ar-lein wedi'u hwyluso a hynny rhwng myfyrwyr sefydliadau Addysg Uwch mewn gwahanol wledydd. Dylai'r rhain fod wedi'u hintegreiddio yn rhan o raddau addysg uwch ac yn werth credydau lle bo hynny'n bosibl.
- Cyrsiau ar-lein agored rhyngweithiol gan gynnwys deunyddiau cwrs traddodiadol megis darlithoedd wedi'u ffilmio, darlleniadau a setiau problemau (MOOCs – Cyrsiau Ar-lein Agored Enfawr) ond yn rhoi pwyslais ar fforymau rhyngweithiol ar gyfer defnyddwyr mewn grwpiau bach i gefnogi rhyngweithio cymunedol ymhlith myfyrwyr a phobl ifanc.
- Darparwyr cyfnewid rhithwir trydydd parti (gan gynnwys rhaglenni lleoliad rhithwir) sy'n amlwg yn wahanol i 'ddysgu o bell'. Dylai cyfnewidfeydd rhithwir geisio sicrhau cydbwysedd rhyngweithio rhwng dysgwyr, cyd-destunau diwylliannol, profiad gwaith a chwricwlwm.

Anogir symudedd cyfunol (y rhai sy'n cynnwys elfennau ffisegol a rhithwir), ond ni fyddant yn denu cyllid ychwanegol ar gyfer yr elfen symudedd rhithwir. Dim ond lle nad oes unrhyw elfen o symudedd ffisegol y mae cyllid ar gyfer gweithgareddau rhithwir ar gael.

Hyd

- leiaf 70 awr o ymgysylltu rhithwir.

Costau cymwys:

Costau datblygu lleoliadau cyfnewid rhithwir:

Cyfraniad tuag at y gost o ddatblygu a chynnal cyfnewidiadau rhithwir o ansawdd uchel, gan gynnwys cyfraniad at ffioedd cyrsiau lle mae cyfnewidiadau rhithwir yn cael eu hwyluso gan ddarparwr trydydd parti. 100% o'r costau gwirioneddol a hyd at £1,200 fesul prosiect.

Bydd y sefydliad(au) sy'n gwneud cais llwyddiannus yn derbyn grant cymorth sefydliadol ar gyfer hyd at 20 o gyfranogwyr fesul prosiect sy'n cwblhau'r isafswm o 70 awr o ymgysylltu rhithwir. Anogir cyfranogwyr ychwanegol yn gryf ond ni fydd hyn yn denu cymorth sefydliadol ychwanegol.

Gweithgareddau Symudedd i Staff:

Disgwylir i staff sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau symudedd rannu eu dysgu/profiad â'u sefydliad (ac yn ehangach lle bo'n briodol) ar ôl dychwelyd i Gymru. Dylid manylu ar beth sy'n cael ei gyflawni, a sut, yn adran 'Gweithgareddau'r Prosiect' ar y ffurflen gais.

Cyfranogwyr cymwys:

Ar gyfer lleoliadau addysgu academaidd:

- Yr holl staff sydd â chontract addysgu neu gontract addysgu ac ymchwil (cyfnod penodol neu benagored) gyda'r sefydliad sy'n gwneud cais.

Ar gyfer pob gweithgaredd staff arall:

- Yr holl staff sydd â chontract cyflogaeth (cyfnod penodol neu benagored) gyda'r sefydliad sy'n gwneud cais.

Ni chaniateir gweithgareddau cymwys ar gyfer staff (a amlinellir isod) i/o gampysau tramor a weithredir gan SAU yng Nghymru.

Gweithgareddau ar gyfer staff cymwys:

1. **Lleoliadau addysgu academaidd neu gysgodi swyddi**

Lleoliadau addysgu ar gyfer staff academaidd mewn unrhyw faes astudio i addysgu a chydweithio mewn sefydliad partner dramor. Gall lleoliadau addysgu academaidd hefyd gynnwys rhoi hyfforddiant ar gyfer datblygu'r sefydliad partner mewn maes penodol.

Bydd cysgodi swyddi yn golygu cyfleoedd symudedd i staff gwasanaethau academaidd neu broffesiynol gael eu symudedd cysgodi swyddi, hwyluso arferion gorau, cyfnewid gwybodaeth, datblygu gyrfa a datblygiad proffesiynol parhaus.

Gellir cyfuno lleoliadau addysgu a chysgodi swyddi yn ystod un cyfnod dramor

Hyd

- leiaf 3 diwrnod – uchafswm o 2 fis.

Rhaid i symudedd addysgu gynnwys o leiaf 8 awr o addysgu yr wythnos (5 diwrnod gwaith). Os yw'r symudedd yn hwy nag wythnos, neu yn achos wythnos anghyflawn, dylai'r isafswm o oriau addysgu fod yn gymesur i hyd symudedd (heb gynnwys diwrnodau teithio ac eithrio mewn achosion mae teithio'n digwydd gyda'r diwrnod addysgu terfynol). O ran symudedd addysgu 3 diwrnod (heb gynnwys teithio) bydd dyletswydd i addysgu am gyfanswm o 4 awr. O ran symudedd addysgu 4 diwrnod (heb gynnwys teithio) bydd dyletswydd i addysgu am gyfanswm o 6 awr.

Costau cymwys:

- Grant cynhaliaeth. Gall sefydliadau ddewis a ddylid talu staff yn erbyn gwariant a dderbyniwyd neu dalu'r swm yn uniongyrchol i staff (lle nad oes angen gwariant a derbynneb).
- Grant teithio.
- 100% o'r costau cynhwysiant gwirioneddol a nodwyd ar gyfer staff sydd ag anableddau ac anghenion ychwanegol.

Bydd y sefydliad(au) a wnaeth gais llwyddiannus yn derbyn grant cymorth sefydliadol ar gyfer *pob* cyfranogwr allanol (a mewnol).

Mae gwybodaeth fanwl am gostau cymwys a chyfraddau grant i'w gweld yn adran 6.

2. Cyrsiau Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Cyllid ar gyfer staff cymwys lle mae agwedd symudedd rhyngwladol y cwrs hyfforddi neu DPP yn dangos gwerth ychwanegol o ran eu swyddogaeth ac o ran nodau strategol ehangach gan y darparwr addysg uwch.

Hyd

- O leiaf 1 diwrnod – uchafswm o 2 wythnos.

Costau cymwys:

- Grant cynhaliaeth. Gall sefydliadau ddewis a ddylid talu staff yn erbyn gwariant â derbynneb neu dalu'r swm yn uniongyrchol i staff (lle nad oes angen gwariant a gafwyd).
- Grant teithio.
- Cyfraniad at ffioedd cwrs neu hyfforddiant o hyd at uchafswm o £40 y cyfranogwr y dydd ac uchafswm o £400 yr un i'r un cyfranogwyr fesul prosiect/Cytundeb Grant.
- 100% o'r costau cynhwysiant gwirioneddol a nodwyd ar gyfer staff sydd ag anableddau ac anghenion ychwanegol.

Bydd y sefydliad sy'n gwneud cais llwyddiannus yn derbyn grantiau cymorth sefydliadol ar gyfer *pob* cyfranogwr allanol (a'r tu allan).

Costau anghymwys o ran staff:

Ffioedd ar gyfer cynadleddau neu deithio i gynadleddau rhyngwladol.

Mae gwybodaeth fanwl am gostau cymwys a chyfraddau grant i'w gweld yn adran 6.

3. Ymweliadau cyn gadael neu fugeiliol

Ymweliadau wedi'u hariannu â phartneriaid newydd neu bresennol at ddibenion sefydlu partneriaethau newydd, cysylltiadau, prosiectau newydd, aildrafod cytundebau partneriaeth, cynnal asesiadau risg, sicrhau ansawdd neu ofal bugeiliol i fyfyrwyr.

Bydd Taith yn ariannu hyd at uchafswm o 3 ymweliad fesul prosiect a rhaid i bob cyfranogwr gwrdd ag o leiaf 3 phartner yn ystod unrhyw un ymweliad.

Pan ddefnyddir ymweliadau cyn gadael neu fugeiliol at ddibenion asesu'r amgylchedd dysgu, asesiadau risg ac addasrwydd ar gyfer myfyrwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gall myfyriwr fynd gydag aelod o staff.

Hyd

- Uchafswm o 3 ymweliad fesul prosiect/cais.
- Uchafswm hyd pob ymweliad yw 1 wythnos.
- Rhaid i gyfranogwr gwrdd ag o leiaf 3 phartner ar bob ymweliad.

Costau cymwys:

- Cynhaliaeth Gall sefydliadau ddewis a ddylid talu staff yn erbyn gwariant â derbynneb neu dalu'r swm yn uniongyrchol i staff (lle nad oes angen gwariant a gafwyd).
- Grant teithio.
- 100% o'r costau cynhwysiant gwirioneddol a nodwyd ar gyfer staff a/neu'r myfyriwr sy'n mynd gyda nhw sydd ag anableddau ac anghenion ychwanegol.

Costau anghymwys:

- Ffioedd ar gyfer cynadleddau neu deithio i gynadleddau rhyngwladol.

Ni fydd y gweithgaredd hwn yn cynhyrchu grantiau cymorth sefydliadol.

3.5 Llwybr 1 AY – Addysg Uwch (Ymchwil)

Mae Taith yn ariannu'r costau teithio a chynhaliaeth sy'n gysylltiedig â symudedd ymchwilwyr yn unig. Ni ddarperir unrhyw arian ar gyfer cyflogau/costau ymchwilwyr na chostau sy'n gysylltiedig ag ymchwil, gan gynnwys defnyddiau traul, ffioedd mainc, gorbenion neu gostau ategol eraill.

Cyfranogwyr cymwys:

- Ymchwilwyr a gyflogir gan y sefydliad anfon sydd ar gontract academaidd ('Addysgu ac Ymchwil' neu 'Ymchwil') o 0.2 FTE neu fwy (cyfnod penodol neu benagored).
- Myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i fyfyrwyr PhD, sydd wedi ymrestru a chofrestru yn y sefydliad sy'n anfon.
- Staff sy'n cefnogi gweithgareddau ymchwil, megis technegwyr, neu staff gwasanaethau proffesiynol ymchwil penodol eraill a gyflogir gan y sefydliad sy'n gwneud cais.

Nid yw cymhwysedd wedi'i gyfyngu i unrhyw oedran neu gyfnod gyrfa ymchwilydd.

Ni ddylai cyfranogwyr unigol gael mwy na chyfanswm o 12 mis o symudedd ar draws y gweithgareddau cymwys fesul prosiect/Cytundeb Grant.

Ni chaniateir symudedd ymchwil i gampysau tramor a weithredir gan SAU yng Nghymru.

Gweithgareddau cymwys:

1. Lleoliadau ymchwil a secondiadau

Bydd y gweithgaredd hwn yn cefnogi symudedd staff cymwys sy'n canolbwyntio ar ymchwil, gan gynnwys myfyrwyr ymchwil ôl-ddoethurol, ymchwilwyr ôl-ddoethurol ac sydd ar ddechrau eu gyrfa, ymchwilwyr sefydledig a staff cymorth ymchwil i gael lleoliadau ymchwil a secondiadau, gan gynnwys posibiliadau rhyngddisgyblaethol a chyfleoedd rhyng-sectoraidd ar gyfer hyfforddi, cydweithio a defnyddio cyfleusterau ymchwil mewn sefydliad partner sy'n sefydliad addysg uwch, sefydliad ymchwil, diwydiant sy'n canolbwyntio ar ymchwil a datblygu, neu weithle perthnasol arall y tu allan i'r DU.

Anogir sefydliadau'n arbennig i hyrwyddo'r gweithgaredd hwn ymhlith myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ac ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa.

Hyd

- Isafswm o bythefnos – uchafswm o 12 mis.

Costau cymwys:

- Grant cynhaliaeth.
- Grant teithio.
- Cyfraniad at ffioedd cwrs neu hyfforddiant o hyd at uchafswm o £40 y cyfranogwr y dydd ac uchafswm o £400 yr un i'r un cyfranogwr fesul prosiect/Cytundeb Grant.
- 100% o'r costau cynhwysiant gwirioneddol a nodwyd ar gyfer ymchwilwyr sydd ag anableddau ac anghenion ychwanegol.

Costau anghymwys:

- Ffioedd ar gyfer cynadleddau neu deithio i gynadleddau rhyngwladol.
- Cyflogau neu daliadau ymchwilwyr;
- Costau sy'n gysylltiedig ag ymchwil, gan gynnwys defnyddiau traul, ffioedd mainc, gorbenion neu gostau ategol eraill

Bydd y sefydliad(au) a wnaeth gais llwyddiannus yn derbyn grant cymorth sefydliadol ar gyfer *pob* cyfranogwr allanol (a mewnol).

2. Ymweliadau cychwynnol, rhwydweithio a chydweithio

Bydd y gweithgaredd hwn yn hyrwyddocyfnewid gwybodaeth, creu partneriaethau newydd a chryfhau cysylltiadau ymchwil rhwng staff ymchwil mewn SAU yng Nghymru a'u cyfoedion rhyngwladol.

Efallai y bydd cyfranogwyr yn dymuno:

- ymgymryd â symudedd i gydweithio ar gynigion ymchwil ar y cyd neu bapurau ag ymchwilwyr mewn sefydliadau partner dramor gan gynnwys ymweliadau archwiliadol i sefydlu cyfleoedd newydd ar gyfer cydweithio.

- cymryd rhan mewn gweithgareddau cydweithredol a/neu waith maes, gan gynnwys cael mynediad i gyfleusterau, seilwaith ac offer arbenigol.
- cymryd rhan mewn cyfleoedd rhwydweithio a datblygu ymchwil gan gynnwys drwy gyflwyno seminarau cydweithredol, gweithdai a hyfforddiant ymchwil.

Hyd

- Isafswm o 2 diwrnod – uchafswm o 1 mis.

Costau cymwys:

- Grant cynhaliaeth.
- Grant teithio.
- Cyfraniad at ffioedd cwrs neu hyfforddiant o hyd at £40 y dydd, hyd at uchafswm o £400 yr un i'r un cyfranogwr fesul prosiect/Cytundeb Grant.
- 100% o'r costau cynhwysiant gwirioneddol a nodwyd ar gyfer ymchwilwyr sydd ag anableddau ac anghenion ychwanegol. Bydd rhywfaint o gyllid yn cael ei gadw'n ganolog gan Taith yn ystod y cam dyfarnu grant at y diben hwn.

Costau anghymwys:

- Ffioedd ar gyfer cynadleddau neu deithio i gynadleddau rhyngwladol.
- Cyflogau neu daliadau ymchwilwyr;
- Costau sy'n gysylltiedig ag ymchwil, gan gynnwys defnyddiau traul, ffioedd mainc, gorbenion neu gostau ategol eraill

Bydd y sefydliad sy'n gwneud cais llwyddiannus yn derbyn grantiau cymorth sefydliadol ar gyfer pob cyfranogwr allanol (a'r tu allan).

Symudedd Mewnol:

Mae gwybodaeth am sefydliadau anfon cymwys i'w chael yn yr adran cymhwysedd yng Nghanllaw Rhaglen Graidd Taith.

Cyfranogwyr cymwys:

Myfyrwyr:

- Pob myfyriwr sydd wedi ymrestru ac wedi cofrestru yn SAU y sefydliad anfon cymwys , wedi cofrestru ar raglen gradd cylch cyntaf neu ail (cyrsiau israddedig ac ôl-raddedig a addysgir), a gydnabyddir gan yr awdurdodau cymwys cenedlaethol neu'r corff/cyrff rheoleiddio perthnasol.

- Pob myfyriwr ar gwrs cyfwerth cenedlaethol Gradd Sylfaen, Diploma Cenedlaethol Uwch (HND) neu Dystysgrif Addysg Uwch fel y'i cydnabyddir gan yr awdurdodau cymwys cenedlaethol perthnasol neu'r corff/cyrff rheoleiddio.

Staff:

- Yr holl staff sydd â chontract cyflogaeth gweithredol gyda'r sefydliad anfon cymwys.

Ar gyfer lleoliadau addysgu academaidd:

- Yr holl staff sydd â chontract addysgu neu gontract addysgu ac ymchwil gyda'r sefydliad anfon cymwys.

Ar gyfer gweithgareddau symudedd ymchwil:

- Ymchwilwyr a gyflogir gan y sefydliad sy'n anfon.
- Myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i fyfyrwyr PhD, sydd wedi ymrestru a chofrestru yn y sefydliad sy'n anfon.
- Staff sy'n cefnogi gweithgareddau ymchwil, megis technegwyr, neu staff gwasanaeth proffesiynol ymchwil penodol eraill sy'n cynnal gweithgareddau cymorth ymchwil ac arloesi, a gyflogir gan y sefydliad sy'n anfon.

Gweithgareddau cymwys:

Mae'r holl weithgareddau a ddiffinnir fel gweithgareddau cymwys ar gyfer gweithgareddau symudedd allanol hefyd yn gymwys at ddibenion symudedd mewnol.

Costau a thaliadau cymwys

Mae cyfranogwyr gweithgareddau symudedd mewnol yn gymwys i gael cyllid grant ar gyfer **teithio** a **chynhaliaeth** ar gyfer eu gweithgareddau symudedd i Gymru. Bydd y sefydliad yng Nghymru a wnaeth y cais llwyddiannus, ac yntau'n Fuddiolwr Taith, yn derbyn grant cymorth sefydliadol ar gyfer pob cyfranogwr mewnol i Gymru. Telir y cyllid ar gyfer gweithgareddau symudedd newnol i'r sefydliad o Gymru a wnaeth y cais llwyddiannus, er mwyn iddo'i drosglwyddo'n briodol i'r sefydliad (anfon) partner.

Bydd disgwyl i'r sefydliad yng Nghymru a wnaeth y cais llwyddiannus, ac yntau'n fuddiolwr Taith a'r un sy'n croesawu'r cyfranogwyr mewnol, gyfleu telerau unrhyw gyfraniadau sydd i'w gwneud yn glir ac i nodi faint o gymorth ariannol a ddyrennir i'r cyfranogwr/cyfranogwyr mewnol.

Yn gyffredinol, disgwylir y bydd cyfranogwyr gweithgareddau symudedd mewnol yn cael cyfraddau cynhaliaeth Grŵp 1, a grant teithio ar yr un lefel â'r cyfraddau a ddiffinnir ar gyfer y gweithgareddau symudedd allanol cyfatebol. Ni chaiff taliadau i gyfranogwr mewnol fod yn uwch na chyfradd grant gyfatebol cyfranogwr allanol o Gymru i wlad Grŵp 1 am yr un cyfnod a math o weithgaredd symudedd.

Y disgwyliad cyffredinol yw bod llif allanol ar gyfer pob mewnlif i Gymru ar gyfer unrhyw un partner rhyngwladol. Ni chaiff buddiolwyr dderbyn cyfranogwyr mewnol gan bartner, lle nad oes unrhyw fwriad i anfon myfyrwyr allanol atynt yn ystod y prosiect.

4 Gwneud cais ar gyfer Llwybr 1

4.1 Dyddiad cau

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais ar gyfer **galwad ariannu Llwybr 1 2023 yw 16eg Mawrth am 12.00yp GMT**. Ni fydd ceisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hasesu.

4.2 Cyn i chi wneud cais

Cyn dechrau gwneud cais, argymhellir bod ymgeiswyr yn:

- Darllen Canllaw'r Rhaglen Graidd.
- Gwirio bod eich sefydliad yn gymwys.
- Darllen y canllaw hwn yn drylwyr, yn enwedig y wybodaeth sy'n benodol i'r sector ynghylch gweithgareddau cymwys, hyd, cyfranogwyr a chostau.
- Gwirio bod gan eich sefydliad ddigon o gapasiti yn ariannol ac o ran gweithredu.
- Ymgyfarwyddo â meini prawf asesu Llwybr 1 – yn adran 5.2.
- Mynd i'r digwyddiadau rhoi ar ben ffordd am sut i gwblhau cais a darllen drwy adnoddau Llwybr 1.

4.3 Cyflwyno cais

I wneud cais am gyllid ar gyfer Llwybr 1 Taith, mae'n rhaid i sefydliadau sy'n gwneud cais ddefnyddio ffurflen gais Llwybr 1 a'r adnodd cyfrifo grant sydd ar gael trwy wefan Taith.

Mae'r ffurflen gais yn gofyn am atebion naratif i ystod o gwestiynau gan gynnwys trosolwg o'r prosiect, manylion am y gweithgareddau arfaethedig fydd yn rhan o'r prosiect, manylion dulliau rheoli'r prosiect a'r cyllid, a manylion sy'n nodi ym mha ffyrdd mae'r prosiect yn cyd-fynd ag amcanion rhaglen Taith.

Ynghyd â chwblhau'r ffurflen gais, bydd yn ofynnol i sefydliadau sy'n gwneud cais gwblhau'r adnodd cyfrifo grant. Bydd yr adnodd hwn yn cyfrifo cyfanswm y grant y gwneir cais amdano yn seiliedig ar yr amrywiol weithgareddau y gwneir cais amdanynt. Ceir gwybodaeth am y cyfraddau grant yn adran 6.

Yn rhan o'r broses ymgeisio, bydd angen i sefydliadau sy'n gwneud cais gadarnhau a ydynt am wneud cais am gyllid ar gyfer gweithgareddau symudedd mewnol. Mae cyllid ar gyfer

symudiadau mewnol ar gael ar gyfer costau teithio, cynhaliaeth a chymorth sefydliadol, am hyd at uchafswm o 30% o'r costau symudedd allanol cyfatebol. Yna bydd y cyllid sydd ar gael ar gyfer hyn yn cael ei gyfrifo'n awtomatig drwy'r adnodd cyfrifo grant.

Asesir ceisiadau yn erbyn y meini prawf asesu ar gyfer Llwybr 1 – yn adran 5.2. Argymhellir bod sefydliadau sy'n gwneud cais yn darllen drwy'r meini prawf asesu yn drylwyr cyn dechrau'r cais fel eich bod yn glir ynghylch yr hyn y mae'r cais yn gofyn amdano, a sut y caiff ei asesu.

Mae amrywiaeth o adnoddau ar wefan Taith sydd wedi'u creu i gefnogi sefydliadau gyda'u cais. Mae'r rhain yn cynnwys y cwestiynau ansoddol a'r meini prawf asesu, canllaw cam wrth gam ynghylch gwneud cais a gwybodaeth wedi'i recordio ymlaen llaw ynghylch llenwi'r ffurflen gais.

Anogir pob ymgeisydd i gwblhau'r adrannau cais ansoddol all-lein, ac yna eu copïo a'u gludo i'r ffurflen gais ar-lein. Bydd hyn yn eu galluogi i weithio drwy'r adrannau wrth eu pwysau, heb y risgiau sy'n gysylltiedig â gweithio ar-lein. Pan fyddant wedi llenwi'r ffurflen gais all-lein, gallant gopïo'r cynnwys, ei ludo yn y mannau perthnasol ar-lein a chyflwyno'r cais.

Dim ond un cais y gall sefydliadau ei gyflwyno fesul sector, fesul galwad am geisiadau, ar gyfer pob Llwybr. Dylai ymgeiswyr sicrhau nad oes mwy nag un cais am yr un alwad am geisiadau ar gyfer Llwybr penodol yn cael eu cyflwyno gan wahanol bartïon yn yr un sefydliad. Os bydd sefydliadau'n gweithio ar draws mwy nag un sector, gallant gyflwyno un cais fesul sector, ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y sectorau hynny.

5. Asesu

Ceir gwybodaeth fanwl ambroses asesu Taith a sut y gwneir penderfyniadau ynghylch cyllid yn adran 6 Canllaw y Rhaglen Graidd.

5.1 Asesu ceisiadau

Er mwyn cael ei ystyried am gyllid, rhaid i sefydliad sy'n gwneud cais ddangos yn ei gais sut y mae'n bodloni meini prawf asesu Llwybr 1 (gweler isod). Bwriad y meini prawf yw galluogi Taith i werthuso ansawdd y ceisiadau sy'n dod i law a rhoi sgôr gyffredinol i bob cais. Bydd pob cais yn cael ei sgorio allan o uchafswm o 100, yn seiliedig ar y meini prawf a'r pwysoliadau isod.

Er mwyn i sefydliadau gael eu hystyried yn gymwys i gael grant, mae'n rhaid iddynt:

- Sgorio o leiaf 60 allan o 100
- Ennill o leiaf hanner y pwyntiau sydd ar gael fesul maen prawf

Bydd sefydliadau sy'n llwyddo i wneud yr uchod yn cael eu hystyried yn rhai y gellid eu cyllido. Bydd ceisiadau nad ydynt yn cwrdd â'r trothwy o ran meini prawf ansawdd yn cael eu hystyried yn aflwyddiannus. Rhoddir adborth ynghylch pob cais.

Dyraniadau cyllid

Mae cynwysoldeb a hygyrchedd yn ffocws strategol ar gyfer Taith ac mae'r rhaglen yn edrych i ariannu ystod mor eang â phosibl o sefydliadau, a chymaint ohonynt a sydd bosib. O'r herwydd, ni fydd unrhyw sefydliad yn gallu derbyn mwy na 40% o gyllideb enghreifftiol y sector a gyhoeddwyd.

Nod Taith fydd ariannu'r holl sefydliadau sy'n pasio'r broses asesu ac yr ystyrir eu bod yn gyllidadwy. Fodd bynnag, mae cyllid Taith yn gyfyngedig ac mae'n debygol y ceir galwadau am geisiadau lle bydd gwerth ceisiadau llwyddiannus sy'n 'gymwys i'w cyllido' yn uwch na'r gyllideb sydd ar gael i'w dyrannu. Lle nad oes digon o gyllideb i ariannu'r holl geisiadau yn llawn, gall Taith fabwysiadu dull gweithredu i leihau'r cyllid ar draws sefydliadau llwyddiannus ar sail deg.

Mae'r cyllidebau enghreifftiol ar gyfer galwad ariannu Llwybr 1 (2023) ar gyfer y sector AB i'w gweld yn adran 3.

5.2 Llwybr 1 Meini Prawf Asesu

Meini prawf ar gyfer Llwybr 1 – Symudedd cyfranogwyr	
Perthnasedd ac ansawdd amcanion a chynlluniau cyflawni'r prosiect (hyd at 40 o bwyntiau)	▪ Mae'r prosiect yn berthnasol i nodau ac amcanion Taith, ac mae'r gweithgareddau arfaethedig o werth i'r sefydliad sy'n gwneud cais. ▪ Mae'r graddau y mae'r prosiect yn diwallu anghenion a nodwyd ymhlith unigolion sy'n cael eu targedu wedi'u dangos mewn ffordd glir a phendant. ▪ Mae perthnasedd a manteision cyflawni'r prosiect drwy gonsortiwm wedi'u dangos yn glir (ar gyfer ceisiadau gan gonsortia). ▪ Mae'r partneriaid rhyngwladol a nodir yn y cais yn briodol ac yn berthnasol ar gyfer gweithgareddau a deilliannau dymunol y prosiect, a rhoddir rhesymau clir ar gyfer y gwledydd dan sylw. Os nad oes partneriaid rhyngwladol wedi'u nodi yn y cais, mae'r

	cynlluniau a amlinellir ar gyfer eu nodi a'u cynnwys yn briodol ac wedi'u hystyried yn ofalus. ▪ O ran lleoliadau symudedd i mewn i Gymru, mae dulliau arfaethedig o reoli'r rhain yn ystyriol, yn briodol ac yn amlwg yn ychwanegu gwerth at y prosiect. ▪ Mae'r sefydliad/consortiwm sy'n gwneud cais wedi dangos tystiolaeth bod ganddo ddigon o gapasiti gweinyddol o ystyried maint y prosiect arfaethedig. Mae wedi dangos dulliau ystyriol a phriodol o reoli'r prosiect o ddydd i ddydd, rheoli cyllid, rheoli lleoliadau symudedd a rhoi cymorth i'r unigolion. ▪ Mae dulliau arfaethedig o fonitro gweithgareddau a chynnydd y prosiect, gan gynnwys casglu a defnyddio adborth yr unigolion, a chynlluniau i werthuso deilliannau ar bob lefel yn gynhwysol ac yn realistig. ▪ Caiff prosesau priodol eu cynnwys yn y cais ar gyfer nodi a rheoli risgiau (ac amgylchiadau eithriadol) wrth gyflawni'r prosiect. ▪ Mae'r sefydliad wedi dangos y bydd yn cymryd camau diogelu / gofalu priodol yn rhan o'r holl weithgareddau arfaethedig, ac mae ganddo gynllun ystyriol a phriodol i sicrhau y bydd pob unigolyn yn cael ei gefnogi.
Ansawdd ac amcanion gweithgareddau arfaethedig (hyd at 35 o bwyntiau)	▪ Mae'r gweithgareddau arfaethedig wedi'u nodi a'u diffinio'n glir, ac maent yn diwallu anghenion a nodwyd. ▪ O ran cyflawni amcanion y prosiect, mae'r gweithgareddau arfaethedig yn realistig. Nodwyd cynllun clir ac amserlen ar gyfer yr holl weithgareddau. ▪ Rhoddwyd esboniad clir o'r hyn sydd ynghlwm wrth bob gweithgaredd arfaethedig a rhesymau dros y cydbwysedd rhwng y mathau gwahanol o weithgareddau. ▪ Mae'r sefydliad wedi dangos i ba raddau y mae'r gweithgareddau arfaethedig yn rhai newydd neu'n ategu ei arferion presennol, neu os yw'n adeiladu ar arferion presennol, wedi dangos ymagwedd arloesol ac ymrwymiad i welliant parhaus. ▪ Dangoswyd i ba raddau y bydd y gweithgareddau arfaethedig yn sicrhau deilliannau dysgu o ansawdd uchel i unigolion. ▪ Nodwyd yn glir pa unigolion y mae pob un o'r gweithgareddau arfaethedig yn eu targedu. Nodwyd prosesau priodol a chynhwysol ar gyfer helpu'r unigolion i gyfranogi, a hynny mewn

	ffordd sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n eu galluogi i wireddu potensial llawn y profiad. ▪ Esboniwyd yn glir beth yw priod rolau pob sefydliad (y sefydliad sy'n gwneud cais a'r sefydliad(au) a fydd yn derbyn yr unigolion) yn rhan o bob gweithgaredd arfaethedig, gan gynnwys trefniadau ar gyfer gweithgareddau symudedd i mewn i Gymru, yn ôl yr angen. ▪ Esboniwyd pa gamau a gaiff eu cymryd i helpu i baratoi'r unigolion cyn y gweithgareddau arfaethedig a pha gymorth a gaiff ei roi yn ystod ac ar ôl y gweithgareddau hynny.
Cyflawni ymrwymiadau trawsbynciol Taith (hyd at 25 o bwyntiau)	I ba raddau: ▪ Nodwyd dulliau clir o gyfathrebu a dulliau priodol o hyrwyddo'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan y prosiect i unigolion, gan gynnwys y rhai o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. ▪ Mae'r sefydliad sy'n gwneud cais wedi diffinio'n glir pa grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol y mae'n eu targedu. Mae wedi rhoi gwybodaeth am y rhwystrau a nodwyd o ran ehangu cyfranogiad ymhlith y grwpiau hynny ac wedi amlinellu camau priodol i oresgyn y rhwystrau hyn. ▪ Nodwyd ymrwymiad a chynlluniau clir i helpu'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai o gefndiroedd difreintiedig yn benodol i gyfranogi. ▪ Nodwyd dulliau amgylcheddol gynaliadwy a chyfrifol o gyflawni'r prosiect, gan gynnwys cynlluniau clir a diriaethol i sicrhau teithio cynaliadwy, lle bo'n briodol. ▪ Nodwyd dulliau clir ac effeithiol o hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn rhan o'r gweithgareddau arfaethedig, gan gynnwys dulliau o godi proffil Cymru fel cenedl agored, eangfrydig a chyfrifol yn fyd-eang.

6. Cyfraddau grant Llwybr 1 – Sector AU

Bydd cyllid Taith yn cael ei ddyfarnu ar ffurf grant. Cyfrifir grantiau gan ddefnyddio cyfraddau grant penodol ar gyfer amrywiol gostau cymwys. Yn rhan o'r broses gwneud cais, bydd gofyn i sefydliadau gwblhau adnodd cyfrifo grant. Bydd gwybodaeth megis gweithgaredd, gwlad, hyd a nifer y cyfranogwyr yn cael ei mewnbynnu i'r adnodd a bydd yr adnodd yn cyfrifo swm y grant y gellir gwneud cais amdano yn awtomatig.

Bydd cyllid yn cael ei ddyfarnu'n bennaf ar sail cyfraddau grant sy'n cyfrannu at gostau teithio a chostau byw pob cyfranogwr, yn seiliedig ar hyd symudedd a'r wlad dan sylw. Bydd cymorth ariannol ychwanegol hefyd yn cael ei roi i gyfranogwyr sy'n wynebu amgylchiadau eithriadol, gan gynnwys rhoi cymorth ychwanegol i gyfranogwyr difreintiedig a'r sawl sydd ag anableddau a/neu anghenion dysgu ychwanegol. Bydd cyllid hefyd yn galluogi sefydliadau i dalu costau sy'n gysylltiedig â chyflawni prosiectau.

Categori Cyllideb	Disgrifiad	Math o Gyfranogwr	Cyfradd Grant (£)	
Cymorth Sefydliadol	Dyma gyfraniad at unrhyw gostau yr eir iddynt gan y sefydliad(au) mewn perthynas â gweithgareddau sy'n helpu dysgwyr a staff unigolion i ymgymryd â lleoliad symudedd ffisegol neu rithwir i mewn i Gymru ac allan ohoni. Cyfrifir OS yn seiliedig ar nifer y cyfranogwyr allanol a mewnol fesul prosiect. Mae'r cyfraddau'n dechrau ar £500 y cyfranogwr ar gyfer y 10 cyfranogwr cyntaf ac yn gostwng wrth i nifer y cyfranogwyr gynyddu. Mae OS ar gyfer symudiadau gweithgareddau rhithwir wedi'i gapio ar gyfer hyd at 20 o gyfranogwyr.	Pawb	**Nifer y Cyfranogwyr** 0 – 10 11 – 30 31 – 60 61 – 100 101 – 150 151 – 200 201+	**Cyfradd y Cyfranogwyr** 500 400 330 250 125 100 80
Cynhaliaeth	Grant i dalu costau byw, a allai gynnwys llety, bwyd a thrafnidiaeth leol, tra'n ymgymryd â gweithgaredd symudedd ffisegol, neu ymweliad paratoadol (staff yn unig).	Myfyrwyr a'r Bobl sy'n Mynd Gyda Nhw	**Cyfradd ddyddiol ar gyfer grŵp gwledydd 1 / 2 / 3:**	
			2 wythnos gyntaf 2 – 8 wythnos 8 wythnos – 12 mis	26 / 24 / 22 18 / 16 / 14 14 / 12 / 11
		Costau	**Cyfradd ddyddiol ar gyfer grŵp gwledydd 1 / 2 / 3:**	

	Cyfrifir cyllid fel cyfradd ddyddiol fesul cyfranogwr. Bydd y gyfradd ddyddiol yn lleihau po hiraf y gweithgaredd symudedd, gyda chyfraddau gwahanol yn berthnasol am y pythefnos cyntaf, 2 – 8 wythnos a thros 8 wythnos. 7 diwrnod yw wythnos a 28 diwrnod yw mis. Ni all gweithgaredd symudedd ar gyfer myfyriwr bara llai na phythefnos. Bydd y gyfradd ar gyfer y pythefnos cyntaf yn cael ei chynnwys wrth gyfrifo grant ar gyfer symudedd hirach. Ni fydd cyfranogwyr yn cael cyllid cynhaliaeth ar gyfer gweithgareddau symudedd rhithwir.		2 wythnos gyntaf 2 – 8 wythnos 8 wythnos – 12 mis	85 / 75 / 65 60 / 50 / 40 35 / 30 / 25
Teithio	Cyfraniad at gost uniongyrchol teithio ar gyfer gweithgareddau symudedd mewnol ac allanol. Mae lefelau cyllid yn seiliedig ar y pellter rhwng Cymru a'r wlad ryngwladol sy'n bartner. Bydd cyfraddau grant uwch ar gael i gyfranogwyr sy'n defnyddio opsiynau 'Teithio Gwyrdd' sy'n amgylcheddol gynaliadwy. Mae cyllid ychwanegol ar gyfer teithio gwyrdd ar gael am bellteroedd rhwng 100km a 3999km. Bydd gofyn i'r buddiolwyr wneud cais am y cyllid ychwanegol drwy gwblhau ffurflen gais sy'n manylu ar yr opsiwn teithio gwyrdd a ddewiswyd.	Pawb	**Pellter** 100-499km 500-1,999km 2,000-2,999km 3,000-3,999km 4,000-7,999km 8,000-12,000km 12,000km+	**Cyfradd deithio/Teithio gwyrdd** 150/180 230/270 300/350 450/520 350 600 700
Cymorth o ran Cynhwysiant: Cyfranogwyr ag Anableddau a/neu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Mae cyfranogwyr sydd ag anabledd neu angen dysgu ychwanegol yn gymwys i gael cyllid ychwanegol i'w helpu i gymryd rhan mewn gweithgaredd symudedd (ffisegol neu rithwir). Bydd cyllid yn cael ei gadw'n ganolog gan raglen Taith a'i weinyddu ar sail costau gwirioneddol unwaith y bydd cyfranogwyr wedi'u nodi. Bydd yn ofynnol i fuddiolwyr **wneud cais am gyllid drwy lenwi ffurflen gais yn manylu ar y costau gwirioneddol fesul cyfranogwr a chyfiawnhad.**	Pawb	100% o'r costau cymwys	
Cymorth o ran Cynhwysiant:	Mae myfyrwyr sydd o gefndir difreintiedig yn gymwys am gyllid ychwanegol ar gyfer costau cysylltiedig â theithio er			

Cyfranogwyr o Gefndiroedd Difreintiedig:	mwyn eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgaredd symudedd ffisegol. Mae costau teithio penodol yn cynnwys costau fisa, pasbort, brechiadau, profion COVID-19, yswiriant iechyd, dillad addas a bagiau yn ôl yr angen. Mae costau teithio i ardal anghysbell ac yn ôl hefyd yn gymwys. Mae myfyrwyr o gefndir difreintiedig yn gymwys i gael taliad ychwanegol ar gyfer cynhaliaeth a theithio hefyd. Gweler Atodiad 1 am feini prawf o ran cymhwysedd. Bydd cyllid yn cael ei gadw'n ganolog gan raglen Taith a'i weinyddu ar sail costau gwirioneddol unwaith y bydd cyfranogwyr wedi'u nodi. Bydd yn ofynnol i fuddiolwyr **wneud cais am gyllid drwy lenwi ffurflen gais yn manylu ar y costau gwirioneddol fesul cyfranogwr a chyfiawnhad.**	Myfyrwyr	100% o'r costau cymwys sy'n gysylltiedig â chostau teithio eithriadol Cyfradd grant cynhaliaeth ddyddiol ychwanegol o 50% Grant teithio ychwanegol o 50% ar gyfer cyrchfannau y tu hwnt i 4,000km
Costau Eithriadol: Costau teithio drud sy'n eithriad	Y cyllid sydd ar gael ar gyfer teithio o/i ardal anghysbell. Bydd cyllid yn cael ei gadw'n ganolog gan raglen Taith a'i weinyddu ar sail costau gwirioneddol unwaith y bydd cyfranogwyr wedi'u nodi. Bydd yn ofynnol i fuddiolwyr **wneud cais am gyllid drwy lenwi ffurflen gais yn manylu ar y costau gwirioneddol fesul cyfranogwr a chyfiawnhad.**	Pawb	Pob unigolyn i gyrchfannau nad ydynt ymhellach na 3,999km: 80% o'r costau gwirioneddol, os nad yw'r swm gwreiddiol yn ddigon i dalu o leiaf 70% ohonynt Unigolion i gyrchfannau ymhellach na 4,000km: 70% o'r costau gwirioneddol, os nad yw'r swm gwreiddiol yn ddigon i dalu o leiaf 60% ohonynt
Costau Eithriadol: Teithio i ganolfan drafnidiaeth y DU	Cyfraniad at gost teithio i ganolfan drafnidiaeth yn y DU fel rhan o symudedd rhyngwladol. Mae canolfan drafnidiaeth yn y DU yn cael ei ddiffinio gan Taith fel pwynt gadael y mae'r symudedd yn gwyro i'w gyrchfan ryngwladol. Er enghraifft maes awyr, gorsaf drenau, porthladd neu orsaf fysiau. Mae arian ar gael ar gyfer symudedd grŵp, ac ar gyfer symudedd unigol i gyfranogwyr o gefndiroedd difreintiedig.	Dysgwyr	£500 y grŵp fesul symudedd, hyd at uchafswm o £1200 y prosiect, yn seiliedig ar gostau gwirioneddol. Hyd at £100 y cyfranogwyr fesul symudedd, yn seiliedig ar gostau gwirioneddol.

	Bydd arian yn cael ei gynnal yn ganolog gan Taith ac yn cael ei weinyddu ar sail costau gwirioneddol ar ôl i'r cyfranogwyr gael eu dewis. Bydd gofyn i'r buddiolwyr **wneud cais am arian drwy gwblhau ffurflen gais sy'n manylu ar y gwir gostau a'r cyfiawnhad.**		
Costau Eithriadol: Costau eithriadol sy'n gysylltiedig â COVID-19	Costau sy'n cwmpasu costau sy'n eithriad ac sy'n gysylltiedig â Covid, yn benodol lle mae statws y wlad gyrchfan yn newid yn ystod gweithgaredd symudedd, gan achosi i'r cyfranogwr fynd i gostau ychwanegol sylweddol oherwydd gofyniad i hunanynysu mewn cyfleuster pwrpasol, neu i gydymffurfio â gofynion profi uwch neu debyg. Bydd cyllid yn cael ei gadw'n ganolog gan raglen Taith a'i weinyddu ar sail costau gwirioneddol unwaith y bydd cyfranogwyr wedi'u nodi. Bydd yn ofynnol i fuddiolwyr **wneud cais am gyllid drwy lenwi ffurflen gais yn manylu ar y costau gwirioneddol fesul cyfranogwr a chyfiawnhad.**	Pawb	100% o'r costau gwirioneddol
Costau Cwrs/Hyfforddiant	Dyma gyllid ar gyfer ffioedd cyrsiau a hyfforddiant yn rhan o leoliadau cyfnewid i hyfforddi / datblygu'n broffesiynol yn barhaus dramor, ffioedd cyrsiau ysgol haf, costau cyfleoedd i weithio dros yr haf a chostau cyfleoedd i wirfoddoli dramor i fyfyrwyr.	Costau	Hyd at uchafswm o £40 y cyfranogwr y dydd ac uchafswm o £400 yr un i'r un cyfranogwr fesul Prosiect/Cytundeb Grant
Cyfnewidiadau Rhithwir Grwpiau: Costau Datblygu	Dyma gyfraniad at y gost o ddatblygu a / neu gynnig lleoliadau cyfnewid rhithwir o ansawdd uchel.	Myfyrwyr	Hyd at £1,200 fesul prosiect/Cytundeb Grant.

Atodiad 1 – cymorth cynhwysiant Taith

Mae Taith wedi ymrwymo i wella mynediad at weithgareddau symudedd rhyngwladol i bobl ag anableddau, anghenion dysgu ychwanegol, a'r rhai o gefndiroedd difreintiedig.

Rydym yn deall y gall mynediad at gyllid digonol i dalu am gost lleoliad symudedd fod yn rhwystr mawr rhag cymryd rhan mewn cyfleoedd rhyngwladol. Mae'r cyllid sy'n cael ei gynnig gan Taith yn cael ei osod ar lefel sy'n ceisio goresgyn y rhan fwyaf o rwystrau ariannol. Mae model grant Taith hefyd yn cynnwys cymorth ariannol ychwanegol i gyfranogwyr difreintiedig (dysgwyr, myfyrwyr a phobl ifanc) ac i gyfranogwyr, gan gynnwys staff, ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau. Ceir gwybodaeth am gyfraddau grant a'r cyllid sydd ar gael yn y Canllawiau Rhaglen Llwybr perthnasol.

1. Cyfranogwyr difreintiedig – sector Addysg Uwch

Bydd cyfranogwyr sy'n bodloni un neu fwy o'r meini prawf canlynol yn cael eu hystyried yn gyfranogwyr dan anfantais ac yn gymwys i gael cymorth ariannol ychwanegol:

- Myfyrwyr lle mae incwm blynyddol y cartref yn £25,000 neu'n llai.
- Myfyrwyr sy'n cael Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau sy'n seiliedig ar incwm, gan eu bod yn cynnal eu hunain yn ariannol neu'n cynnal eu hunain a rhywun arall sy'n dibynnu arnynt ac yn byw gyda nhw, megis plentyn neu bartner, yn ariannol.
- Myfyrwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw un sydd wedi bod mewn gofal yn y gorffennol, sydd mewn gofal ar hyn o bryd neu sydd wedi derbyn gofal, am faint bynnag o amser, ar unrhyw adeg yn ystod eu bywyd, gan gynnwys unrhyw un a gafodd ei fabwysiadu a oedd yn derbyn gofal gynt neu sy'n cael bwrsari i fyfyrwyr â phrofiad o fod mewn gofal mewn rhannau eraill o'r DU.
- Myfyrwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu.
- Myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio (fel y'u diffinnir gan Cyllid Myfyrwyr Cymru).
- Ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

2. Unigolion ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol

Mae Taith wedi ymrwymo i fod yn gynhwysol a helpu'r rhai sydd â chyflyrau iechyd, boed yn rhai ffisegol neu feddyliol, i gymryd rhan. Felly, bydd Taith yn cynnig grant i unigolion ag anableddau a / neu anghenion dysgu ychwanegol i hyd at 100% o gostau gwirioneddol cymorth sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'u hanghenion ychwanegol.

Gall cymorth o'r fath gynnwys gwneud asesiadau risg yn rhan o ymweliad paratoadol a sicrhau bod y cymorth sydd ei angen ar gyfer ymgymryd â'r lleoliad cyfnewid ar gael, cyllido aelodau ychwanegol o staff i gefnogi'r unigolyn a / neu dalu am offer / addasiadau / adnoddau sydd eu hangen ar yr unigolyn i gyfranogi. Mae rhagor o wybodaeth am ymweliadau paratoadol ar gael yn adran gweithgareddau cymwys y Canllaw Rhaglen.

Taith.cymru

Taith.wales